

# Paratoi i Weithredu yn Oes byd Geneteg

**Fframwaith addysgol yn seiliedig  
ar gymhwysedd ar gyfer nyrsys,  
bydwragedd ac ymwelwyr iechyd**

***Cymwys, medrus a gofalgar***

Adroddiad i Dîm Geneteg Adran Iechyd Y GIG

## **Crynodeb Gweithredol**

Paratowyd gan  
Uned Polisi Genomaidd, Prifysgol Morgannwg,  
a Gwasanaeth Geneteg Meddygol Cymru, Ysbyty Prifysgol Cymru

*Rhagfyr 2003*



## Tîm y Prosiect:

Dr Maggie Kirk  
Mr Kevin McDonald  
Ms Sally Anstey  
Dr Marcus Longley

## Grŵp Llywio:

Professor Elizabeth Anionwu  
Dr Caroline Benjamin  
Dr Sally Davies  
Ms Jane Denton  
Ms Elizabeth France  
Dr Jonathon Gray  
Ms Penny Guilbert  
Dr Rachel Iredale  
Dr Heather Skirton

## Tîm Gweinyddol

Mrs Karen Roberts  
Mrs Trish Millard

## Senarios:

Darparwyd deunydd ychwanegol ar gyfer yr astudiaethau achos gan Lorna Bennett, Aoife Bradley ac Emer Parker.

Ariannwyd y prosiect hwn gan yr Adran Iechyd. Gellir lawrlwytho copi llawn o'r adroddiad llawn o dudalennau UPG (GPU) ar wefan:  
<http://www.glam.ac.uk/socsschool/research/gpu/FinalReport.pdf>

ISBN 1-84054-136-9

Dylid anfon unrhyw sylwadau am yr adroddiad hwn at:

**Mr Kevin McDonald**  
**Genomics Policy Unit**  
**School of Care Sciences**  
**University of Glamorgan**  
**Pontypridd**  
**CF37 1DL**

# Saith datganiad safonol cymhwysedd

Dylai pob nyrs, bydwaig ac ymwelydd iechyd wrth gael eu cofrestru fedru gwneud y canlynol:

## 1. Dynodi cleientiaid a fyddai'n gallu manteisio ar wasanaethau a gwybodaeth geneteg

- drwy ddeall pwysigrwydd hanes y teulu wrth asesu rhagduddiad i glefydau,
- ceisio help gan arbenigwyr geneteg ac adnoddau cynhaliol cymheiriaid a chyfeirio atyn nhw ac
- yn seiliedig ar ddealltwriaeth o elfennau'r broses cynghori geneteg gyfredol

## 2. Gwerthfawrogi pa mor bwysig yw bod yn sensitif wrth deilwra gwybodaeth a gwasanaethau geneteg i baru â diwylliant, gwybodaeth a lefel iaith y cleientiaid

- sylweddoli y gallai persbectif ethnig, diwylliannol, crefyddol a moesol ddylanwadu ar allu'r cleientiaid i ddefnyddio'r rhain.

## 3. Cefnogi hawl pob cleient i gael llais yn y penderfyniadau a wneir a'r gweithredu gwirfoddol

- yn seiliedig ar yr ymwybyddiaeth bod y wybodaeth am eneteg pobl wedi ei gamddefnyddio yn y gorffennol a
- deall pa mor bwysig yw hi i ddarparu addysg geneteg a chynghor teg, cywir heb orfodaeth na rhagfarn bersonol,
- sylweddoli y gall gwerthoedd a chredoau personol ddylanwadu ar y gofal a'r cymorth a ddarperir ar gyfer cleientiaid yn ystod y broses o benderfynu.

## 4. Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o rôl ffactorau geneteg ac eraill wrth gynnal iechyd ac wrth amlygu, addasu ac atal afiechydon i danlinellu arferion effeithiol.

## 5. Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r defnydd o wybodaeth a phrofion geneteg a'r cyfyngiadau

- yn cynnwys y materion ethnig, cyfreithiol a chymdeithasol ynghlwm â phrofion a chofnodi gwybodaeth geneteg a'r
- canlyniadau corfforol a/neu seicogymdeithasol posibl i unigolion, aelodau teuluoedd ac i gymunedau.

## 6. Canfod terfynau ein harbenigedd ein hunain ym maes geneteg

- yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'n rôl broffesiynol wrth gyfeirio pobl at y gwasanaethau geneteg, darparu'r gwasanaethau neu ôl ofal..

## 7. Sicrhau a throsglwyddo gwybodaeth gredadwy, gyfredol am eneteg ar gyfer ein hunain, cleientiaid a chydweithwyr

- gan ddefnyddio technolegau effeithiol i wneud hynny

# CRYNODEB GWEITHREDOL

## Cefndir ac amcanion

"Mae gan y wybodaeth a'r dechnoleg am eneteg y potensial i ddod a myrdd o fanteision i gleifion: gwell proffwydoliaeth bersonol am y risg, deiagnosis mwy manwl, defnydd diogelach o foddion ac opsiynau triniaeth newydd sbon" (Yr Adran Iechyd 2003).

Yn ei Bapur Gwyn ar eneteg pwysleisiodd yr Adran Iechyd (2003) ei bod yn hanfodol darparu addysg ar gyfer pobl broffesiynol maes iechyd os yw'r cynnydd a wnaed ym maes geneteg i'w ddefnyddio'n gyffredinol. I gefnogi hyn, sefydlir Canolfan Datblygu ac Addysg Geneteg Y GIG a rhan o'i swyddogaeth fydd datblygu fframwaith cymhwysedd. Cyn hynny, roedd yr Adran Iechyd wedi comisiynu Uned Polisi Geneteg i gydweithio gyda Gwasanaeth Geneteg Meddygol Cymru i ddatblygu fframwaith o'r fath ar gyfer nyrsys, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd. Felly, prif bwrpas y prosiect hwn yw diffinio'r wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau sydd eu hangen ar y grwpiau proffesiynol hyn ar wahanol lefelau er mwyn darparu gofal o'r ansawdd uchaf posibl i wahanol grwpiau o gleientiaid i danlinellu polisiau iechyd, addysgol a phroffesiynol. Mae'n adeiladu ar waith blaenorol ac mae'n gyflenwol i waith yr Uned Geneteg Iechyd y Cyhoedd yn datblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer addysg geneteg ar gyfer pob gr\_p proffesiynol ym maes iechyd. (Burton 2003).

## Amcanion

1. Diffinio elfennau cyffredin o wybodaeth, sgiliau ac agweddau geneteg sydd eu hangen ar nyrsys, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd i gwrdd ag anghenion cleifion o bob grŵp;
2. Disgrifio'r elfennau hynny o gymhwysedd sy'n unigryw i grwpiau penodol o bobl broffesiynol a chleifion;
3. Sicrhau rhychwant barn ar draws grwpiau budd-ddeiliaid fel y gellir canfod gwanhaol farnau a'u harchwilio ymhellach.

## Dull

Defnyddiwyd proses o bedwar cyfnod a oruchwyliwyd gan y grŵp Llywio: diffinio a mireinio'r cymhwysedd; ymgynghori; cymathu ymatebion; cwblhau'r fframwaith.

Gan ddefnyddio dull gr\_p nominal, gwahoddwyd Panel Arbenigol yn cynnwys 40 o fudd-ddeiliaid o wahanol feysydd perthnasol gofal iechyd yn y DU, yn cynnwys grwpiau defnyddwyr, i ystyried y cymhwysedd mewn geneteg a fyddai ei angen ar y bobl broffesiynol hyn ar wahanol lefelau o weithredu ac ar gyfer gwahanol grwpiau o gleifion. Defnyddiwyd senarios i ysgogi trafodaeth o fewn rhaglen strwythuredig gan bleidleisio'n ailadroddol. Defnyddiwyd technoleg pleidleisio electroneg. Ystyriwyd tair lefel o brofiad, o'r bobl newydd eu cofrestru i'r ymarferwyr mwy profiadol megis rheolwyr wardiau. Ystyriwyd pum maes: gofal am gleifion â chancr, haemoglobinopathi, pediatreg, anabledd dysgu a gofal cychwynnol.

Defnyddiwyd y 38 datganiad cymhwysedd a gyhoeddwyd gan *US National Coalition for Health Professionals in Genetics* (NCHPEG) fel patrwm i'r drafodaeth. Daethpwyd i gonsensws yn ystod y rhaglen ddau ddiwrnod strwythuredig ac arnodwyd datganiadau cymhwysedd d 34. Dilyswyd y rhain yn erbyn fframweithiau proffesiynol priodol (NMC) i ddangos nad oedden nhw'n adlewyrchu estyniad o swyddogaethau proffesiynol ond yn hytrach, eu bod yn egluro lle geneteg yn yr arfer cyfredol. Wedyn, fe'u mireiniwyd ymhellach i ddatblygu'r saith datganiad cymhwysedd. Mae'r rhain yn cynrychioli'r lleiafswm cymhwysedd craidd cyffredin y dylai nyrsys a bydwragedd eu cyflawni wrth gael eu cofrestru ac maen nhw'n berthnasol i ymwelwyr iechyd ar ddechrau eu cyfnod hyfforddiant.

Defnyddiwyd adroddiad interim ar gasgliadau'r Panel fel sail i ymgynghori ehangach a oedd yn cynnwys cynhadledd ymgynghorol undydd. Croesawyd y saith datganiad a chytunwyd eu bod yn cyflwyno arfer broffesiynol 'o safbwynt geneteg'.

Er eu bod yn gyffredinol, maen nhw'n cynrychioli'r lleiafswm safon y dylid ei gyflawni. Dadansoddwyd yr ymatebion yn thematig i'w cymathu. Cymharwyd y datganiadau safon â'r fframwaith ar gyfer canlyniadau dysgu ac arfer er mwyn egluro rhychwant y cymhwysedd yn fwy penodol

### **Gweithredu'r Cymhwysedd**

Gweithredir datganiadau safon cymhwysedd ar draws grwpiau proffesiynol ar dair lefel y gweithredu a ystyriwyd ac ar gyfer gwahanol feysydd o ofal iechyd. Mae'r mathau o gleientiaid yn cynnwys unigolion a/neu deuluoedd y mae cyflwr geneteg wedi effeithio arnyn nhw neu sydd wedi etifeddu rhyw wendid allai olygu bod rhai clefydau yn effeithio arnyn nhw neu fod hanes yn y teulu o wendid o'r fath, a'r grŵp cynyddol, er yn iach, sy'n pryderu am eneteg ac am iechyd.

Gellir defnyddio'r disgrifyddion lefelau canlyniadau dysgu ac arfer i ddiffinio dyfnder y wybodaeth sydd ei hangen i fod yn berthnasol i'r rôl broffesiynol ac i'r lefel o gyfrifoldeb. Gellir cynnwys, yn ogystal, ganlyniadau ychwanegol dysgu ac arfer er mwyn adlewyrchu'r rôl broffesiynol neu'r maes.

Byddai'r canlyniadau hyn yn cael eu cyflawni dros gyfnod y rhaglen hyfforddi a thros amrywiaeth o sefyllfaoedd gofal. Dylai'r fframwaith hefyd fod yn ddeinamig. Drwy hynny, byddai'r fframwaith yn darparu model hyblyg y gellir ei addasu i adlewyrchu'r newidiadau wrth integreiddio mentrau newydd i'w harferion.

### **Paratoi ar gyfer Yr arferion**

Does dim amheuaeth bod rhaid i ymarferwyr ennill cymhwysedd mewn geneteg, ond lleisiwyd pryderon ar sut y cyflawnir hyn. Mae'r elfennau a ganfuwyd sy'n hanfodol i llwyddiant yn golygu cynnwys grwpiau budd-ddeiliaid, addysgu addysgwyr, delio â blaenoriaethau gwahanol yn y cwricwlwm, dynodi dulliau priodol ac arloesol o addysgu a dysgu, ymglymiad a chymorth clinigol a rheoli 'r newidiadau yn effeithiol. Mae'r adroddiad yn amlinellu naw argymhelliad yn ymwneud â'r materion hyn. Cydnabyddir bod goblygiadau sylweddol i sefydliadau addysg uwch a'r GIG wrth hyrwyddo cyflawni cymhwysedd geneteg. Bydd rôl hanfodol Addysg Geneteg y GIG a'r Ganolfan Datblygu i gydlynu a gwerthuso'r datblygiadau yn hanfodol i sicrhau llwyddiant.

### **Casgliadau**

Mae cytuno ar fframwaith yn gam pwysig ymlaen i nyrsio, bydwreigiaeth ac ymweld cymdeithasol, ac yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer datblygiadau pellach yn integreiddio geneteg i arferion addysgol a phroffesiynol.

## Argymhellion

1. Anogir llywodraethau datganoledig wrth ystyried goblygiadau'r Papur Gwyn i weithredu ar y cyd i gefnogi sefydlu Addysg Geneteg y GIG a'r Ganolfan Datblygu fel y gellir cynnal safonau cymhwysedd geneteg y cytunwyd arnyn nhw ar draws y DU.
2. Rhaid integreiddio gwybodaeth geneteg a gofal iechyd ar draws y GIG yng nghyd-destun polisïau eraill. Mae plethu gyda mentrau eraill megis Fframwaith gwybodaeth a Sgiliau a Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol yn gallu ennyn synergedd.
3. Rhaid i gyflogwyr y GIG ystyried dulliau o gynorthwyo ymarferwyr drwy gynnig rhaglenni datblygiad proffesiynol parhaus er mwyn hyrwyddo a chynnal gofal effeithiol a datblygiad gyrfa bersonol a hefyd i helpu hyrwyddo datblygiad o fentoriaid clinigol.
4. Rhaid seilio cymhwysedd geneteg ar bolisïau cadarn a chlir ac mae gan systemau rheoli ac arweinyddion y gwasanaethau rôl bwysig yn hyn o beth.
5. Dylid rhoi blaenoriaeth i raglenni sy'n 'addysgu'r addysgwyr'
6. Dylai addysgwyr barhau i gydweithio gydag ymarferwyr o bob maes gofal iechyd, yn cynnwys geneteg feddygol, i ddatblygu rhaglenni addysgol sy'n delio gydag anghenion y rhai sy'n dysgu ac ymarferwyr. Yn arbennig, mae angen dyfeisio dulliau o ddangos y gall gweithredu clinigol ddelio â sefyllfaoedd go wir. Dylid ymestyn y cydweithio tu hwnt i faes gofal iechyd er mwyn adlewyrchu natur drawsgwricwlaidd geneteg, gan gynnwys cydweithwyr o ddisgyblaethau megis athroniaeth a gwyddorau cymdeithasol.
7. Byddai angen i unrhyw strategaeth sy'n hyrwyddo cymhwysedd ystyried darparu ar gyfer ymarferwyr sydd eisoes yn gweithredu yn y maes, gyda chynlluniau atodol ar gyfer y rhai sydd eisoes wedi cyflawni'r lleiafswm safonau cymhwysedd.
8. Rhaid i sefydliadau proffesiynol ddangos arweinyddiaeth er mwyn cryfhau'r fframwaith cymhwysedd a dylen nhw fod yn arloesi mentrau i godi ymwybyddiaeth am eneteg.
9. Mae rheoli newid yn effeithiol yn wirebol a rhaid i werthuso fod yn rhan ohono. Wrth benderfynu sut byddai'r fframwaith cymhwysedd hwn yn effeithio ar ofal unigolion sydd â chyflwr geneteg posib, y gobaith, dros gyfnod o bum mlynedd, fyddai:
  - Bod pobl broffesiynol ym maes gofal iechyd yn gallu arddangos cynnydd yn eu gwybodaeth am eneteg
  - Bod cymhwysedd geneteg yn rhan o'r cwricwlwm cyn-gofrestru.
  - Bod mentoriaid gwybodus a phriodol yn hyfforddi yn ystod lleoliadau clinigol cynorthwyo.
  - Bod sefydliadau Gwasanaeth Iechyd yn cynnwys geneteg ym mhroffiliau swyddi perthnasol.
  - Bod ymarferwyr ôl-gofrestru, y mae geneteg yn rhan o'u gwaith neu'n gysylltiedig ag e, yn cynnwys geneteg yn eu cynlluniau datblygiad personol.

*D.S. Lleolwyd y senarios a ddefnyddiwyd yn y crynodeb gweithredol hwn i ysgogi trafodaeth mewn manau amlwg ac nid o anghenraid gyferbyn â'r datganiadau cymhwysedd perthnasol.*

# FFRAMWAITH CYMHWYSEDD CRAIDD CYFFREDIN

**Datganiad 1 Safon Craidd: yr Ymarferydd Cymwys** (h.y. y nyrs neu'r fydwaig newydd gymhwyso)

## Parth: Cyflenwi gofal

### Dynodi cleientiaid y byddai gwybodaeth a gwasanaethau geneteg o fudd iddyn nhw

- drwy ddeall pwysigrwydd olrhain ac asesu gwendidau geneteg yn y teulu,
- ceisio cymorth gan arbenigwyr geneteg priodol a chyfeirio atyn nhw a chefnogaeth adnoddau cymheiriaid, a
- deall elfennau'r profion geneteg cyfredol a'r broses cynghori.

### Awgrym o'r canlyniadau dysgu

- A. Egluro technoleg geneteg sylfaenol pobl.
- B. Disgrifio patrymau etifeddeg biolegol sylfaenol a'r amrywiadau o fewn teuluoedd a phoblogaethau.
- C. Cydnabod rôl hanes teuluol yn y broses asesu.
- D. Rhestru'r adnoddau sydd ar gael i helpu cleientiaid, sy'n chwilio am wybodaeth neu wasanaethau geneteg, gan gynnwys y mathau o wasanaethau sydd ar gael.
- E. Disgrifio gwahanol gyfrifoldebau a rolau pobl broffesiynol ym maes gwasanaethau geneteg.
- F. Disgrifio 'taith nodweddiadol y claf' drwy'r broses o dderbyn cyngor geneteg.

### Awgrym o ddangosyddion yr arferion

1. Dangos y gallu i ystyried hanes risg iechyd geneteg tair cenhedlaeth yn gywir.
2. Dynodi gwybodaeth yn hanes y teulu a allai fod yn arwyddocaol.
3. Gyda chyfarwyddyd, yn dynodi cleientiaid y byddai eu cyfeirio at arbenigwyr ym maes geneteg a/neu adnoddau geneteg o fudd iddyn nhw.
4. Hwyluso'r atgyfeirio at arbenigwyr geneteg, gan gwblhau'r ddogfennaeth briodol yn gywir.

## Senario

Doeddwn i ddim yn rhyfeddu llawer pan ddaeth Mrs Connor ata i, tu allan i'r ysgol gynradd. A finnau'n ymwelydd iechyd, mae pobl yn aml yn fy stopio a gofyn am gyngor, ond do'n i ddim yn disgwyl yr ymosodiad geiriol! "Maen nhw wedi fy anfon i gael cyngor geneteg", meddai. "Dwi wedi cymryd ata i'n arw. Dwi erioed wedi cael erthyliaid ond gan fy mod i'n h\_n maen nhw'n meddwl y dylwn i fynd am brofion." Roedd yn amlwg ei bod hi wedi cynhyrfu'n lân. "Edrychwch," atebais i, "bydd y plant yn dod allan o'r ysgol mewn munud, felly does dim amser i mi egluro i chi am gyngor geneteg. Fe alwai draw i'ch gweld yfory i ni gael siarad am y peth. Dwi'n si\_r y byddwch yn dawelach eich meddwl wedi i mi egluro, ac os ydych chi'n dal yn amheus, gallwch drafod hynny hefyd."



## Datganiad Safonol Craidd 2: Yr ymarferydd cymwys

### Parth: Arferion Proffesiynol a Moesegol

**Gwerthfawrogi pa mor bwysig yw hi i fod yn sensitif wrth deilwra gwybodaeth a gwasanaethau geneteg i fasio â diwylliant, gwybodaeth a iaith cleientiaid**

- gan gydnabod y gall persbectif ethnigrwydd, diwylliannol, crefyddol a moesol ddylanwadu ar allu'r cleient i'w ddefnyddio.

Awgrym o'r canlyniadau dysgu	Awgrym o ddangosyddion yr arferion
<p>A. Cydnabod y gall persbectif diwylliannol, ethnig a chrefyddol cleientiaid ddylanwadu ar eu gallu i ddefnyddio gwybodaeth geneteg a gwasanaethau.</p> <p>B. Trafod sgiliau cyfathrebu a rhyngpersonol sydd eu hangen mewn materion geneteg.</p> <p>C. Cydnabod yr angen i ddefnyddio iaith y mae'r cleient yn ei deall.</p>	<ol style="list-style-type: none"><li>1. Dangos y gallu i gyfathrebu mewn modd sensitif gyda chleientiaid gan gydymdeimlo â'u cefndir diwylliannol, ethnig a chrefyddol.</li><li>2. Dangos ymwybyddiaeth o gefndir y cleient wrth drafod materion geneteg.</li><li>3. Dangos y gallu i ddefnyddio adnoddau er mwyn cyfathrebu'n effeithiol a sicrhau'r hawl i wasanaethau geneteg.</li><li>4. Dewis iaith sy'n briodol i lefel dealltwriaeth ac oed y cleient</li><li>5. Defnyddio sgiliau cyfathrebu i hyrwyddo a gwirio dealltwriaeth y client</li></ol>

6

### Senario: Y berthynas rhwng y polisi a'i weithredu

Pan fynychodd Mrs Henry glinig cyn-geini ei hysbyty GIG leol, yn unol â rhaglen sgrinio haemoglobinopathi'r Ymddiriedolaeth, cafodd gynnig sgrinio. Cytunodd i'r prawf. Gofynnodd y fyfyrwraig o fydwraig i'w mentor beth oedd y rheswm dros gynnig sgrinio haemoglobinopathi iddi. Eglurodd mai polisi'r ysbyty oedd cynnig y prawf i bob menyw, waeth beth fo'u hethnigrwydd, er, yn achos Mrs. Henry, roedd ei chefnidir yn awgrymu bod risg uchel o ddatblygu clefyd cryman-gell. "Dydyn ni byth yn rhagdybio dim byd", dywedodd. Y tro nesaf i Mrs Henry fynychu oedd i dderbyn y canlyniadau. Fe ddangoson nhw, er ei bod yn iach, ei bod yn gludydd clefyd cryman-gell. Daeth ei g\_r gyda hi ac, ar ôl profion, dangoswyd bod yntau hefyd yn gludydd y clefyd. Cadarnhaodd profion fod y babi yn dioddef o'r clefyd. Fe wnaeth Mr a Mrs Henry'r penderfyniad anodd o erthylu'r beichiogrwydd. Er yn llawn eu gofid, roedden nhw'n teimlo mai dyna'r peth gorau i'w wneud a bu'r fydwraig yn gefn iddyn nhw drwy gydol y broses boenus ac yn y cyfnod o ôl ofal.

### Ystyried yr arferion

Mae'r senario hwn yn dangos sut y gall polisiâu a systemau cadarn a weithredir gan ymarferwyr cymwys integreiddio gwybodaeth a sgiliau i'r arfer a hyrwyddo gofalu o'r ansawdd uchaf. Yn anffodus, y gwrthwyneb oedd yn wir am senario'r sefyllfa go wir. Ni chynigiwyd profion i'r fam er gwaethaf polisi'r ysbyty ac ni chanfuwyd bod hi na'i g\_r yn gludwyr y clefyd cryman-gell tan ar ôl i'w mab gael ei eni a chanfod ei fod yn dioddef o glefyd cryman-gell. Cafodd hyn effaith ddifrifol ar y teulu yn emosiynol, yn seicolegol ac yn ddiwylliannol. Effeithiodd yn anffafriol ar yr ysbyty a'r bobl broffesiynol oedd yn gofalu am Mrs Henry.

## Datganiad Safonol Craidd 3: Yr ymarferydd cymwys

### Parth: Arferion Proffesiynol a Moesegol

#### Cefnogi hawl pob cleient i gael llais yn y penderfyniadau a wneir a'r gweithredu gwirfoddol

- yn seiliedig ar yr ymwybyddiaeth bod y wybodaeth am eneteg pobl wedi ei gamddefnyddio yn y gorffennol a
- deall pa mor bwysig yw hi i ddarparu addysg geneteg a chynghor teg, cywir heb orfodaeth na rhagfarn bersonol,
- sylweddoli y gall gwerthoedd a chredoau personol ddylanwadu ar y gofal a'r cymorth a ddarperir ar gyfer cleientiaid yn ystod y broses o benderfynu.

#### Awgrym o'r canlyniadau dysgu

- Disgrifio goblygiadau cymdeithasol a seicolegol yr hawl i dderbyn gwasanaethau a gwybodaeth geneteg.
- Cydnabod pwysigrwydd a chynnal hawl pob client i wneud penderfyniadau gwybodus ac i weithredu'n wirfoddol.
- Cydnabod hawliau arbennig y rhai nad ydyn nhw'n medru rhoi caniatâd gwybodus i weld a defnyddio gwybodaeth geneteg.
- Trafod sut gallai gwerthoedd a chredoau personol ar faterion cymdeithasol, diwylliannol, crefyddol ac ethnig ddylanwadu ar ofal cleientiaid.
- Dynodi sut gall ymwybyddiaeth o gam-drin gwybodaeth geneteg yn y gorffennol a chamdriniaeth posibl yn y dyfodol fod yn sail i egwyddor y dull di-gyfarwyddo o gwnsela geneteg.

#### Awgrym o ddangosyddion yr arferion

- Dangos ymwybyddiaeth o anghenion y cleientiaid a bod yn deg a sensitif wrth gyd-drafod sail rhesymegol dros geisio cynghor arbenigwyr geneteg neu gael eu cyfeirio atyn nhw.
- Dynodi sefyllfaoedd lle gallai ein credoau a'n gwerthoedd ni ein hunain ddylanwadu ar y gofal a roddir i gleientiaid.
- Dynodi sefyllfaoedd lle gallai credoau a/neu werthoedd y cleient ei hun ddylanwadu ar y dewisiadau geneteg a wneir.
- Defnyddio sgiliau cyfathrebu i alluogi cleient i fynegi ei dymuniadau/ dymuniadau ei hun neu ddilyn ei d/thrywydd ei hun.
- Peidio byth â barnu.

## Datganiad Safonol Craidd 4: Yr ymarferydd cymwys

### Parth: Cyflenwi gofal

#### Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o rôl ffactorau genetegol ac eraill wrth gynnal iechyd ac wrth amlygu, addasu ac atal afiechydon er mwyn tanlinellu arferion effeithiol.

#### Awgrym o'r canlyniadau dysgu

- Disgrifio rôl ffactorau geneteg mewn cynnal iechyd ac atal clefydau.
- Disgrifio rôl ffactorau geneteg mewn amlygu clefydau, gan ddefnyddio enghreifftiau o gyflyrau cyffredin wedi eu hetifeddu.
- Dynodi y gallai'r rhyngweithiad rhwng ffactorau geneteg a ffactorau eraill ar wahanol gyfnodau mewn bywyd ddylanwadu ar amlygiad clefydau.
- Cymhwyso cysyniadau sylfaenol risg er mwyn gwahaniaethu rhwng tueddiad genetig ac amlygiad clinigol o'r clefyd.

#### Awgrym o ddangosyddion yr arferion

- Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i ganfod gwybodaeth arwyddocaol am yr hanes teuluol.
- Dangos y gallu i ddefnyddio gwybodaeth am hanes y teulu fel sail i gyngor addysg iechyd.

## Datganiad Safonol Craidd 5: Yr ymarferydd cymwys

### Parth: Arferion Proffesiynol a Moesegol

#### Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r defnydd o wybodaeth a phroffion genetegol a'r cyfyngiadau

- yn cynnwys y materion ethnig, cyfreithiol a chymdeithasol ynghlwm â phroffion a chofnodi gwybodaeth genetegol a'r
- canlyniadau corfforol a/neu seicogymdeithasol posibl ar yr unigolion, aelodau teuluoedd ac ar gymunedau.

Awgrym o'r canlyniadau dysgu	Awgrym o ddangosyddion yr arferion
<p>A. Dynodi manteision, risgiau a chyfyngiadau posibl profion geneteg a'r hawl i gael gwybodaeth geneteg.</p> <p>B. Sylweddoli bod gwybodaeth geneteg yn rhywbeth sensitif, yn enwedig y materion moesol, cyfreithiol a chymdeithasol sydd yn gysylltiedig â'r wybodaeth.</p> <p>C. Trafod yr effaith y gallai gwybodaeth geneteg ei gael ar unigolion, ar aelodau'r teulu ac ar gymunedau.</p>	<ol style="list-style-type: none"><li>1. Sicrhau preifatrwydd wrth drafod gwybodaeth geneteg.</li><li>2. Sicrhau cyfrinachedd cofnodion gwybodaeth geneteg</li><li>3. Dangos sensitifrwydd i'r effaith posibl ar yr unigolyn ac ar aelodau eraill o'r teulu.</li><li>4. Ymateb yn briodol i ymholiadau am bryderon geneteg.</li></ol>

8

### Senario

Ail fabi Ella oedd hwn - bachgen bach. Bues i'n eu gweld ar y trydydd diwrnod ac roedd y ddau yn dod yn eu blaenau'n dda. Ar y pumed diwrnod, fe es i'w gweld eto a roeddwn yn hapus i weld bod y bwydo o'r fron yn mynd yn iawn. Dwedais wrthi y byddwn yn dod nôl y diwrnod canlynol i wneud y prawf pricio sawdl a gofynnais a oedd hi wedi darllen y daflen am y prawf a gafodd yn y clinig cyn-geni. Doedd hi ddim wedi ei darllen a chan gochi, dywedodd ei bod wedi ei cholli. Chwerthin wnaethon ni a dywedais bod ganddi ddigon ar ei phlât heb fynd i chwilio amdani. Rhois un arall iddi hi. Pan ddychwelais ar y 7fed diwrnod, gofynnais i Ella a oedd hi wedi darllen y daflen. Dywedodd ei bod ac arwyddodd y ffurflen ganiatâd. Dywedais wrthi mai mater o drefn oedd y prawf ac mai prin oedd yr achosion o glefydau ond ei bod yn beth da i'w canfod nhw'n gynnar. Byddai'r canlyniadau yn cymryd tair wythnos a dim ond petai problem byddai'r labordy yn cysylltu â ni. Fe griodd y babi, wrth gwrs, wrth i mi dynnu ychydig o waed o'i sawdl. Daeth Rob, g\_r Ella adre a dywedais wrtho bod ganddo fab bendigedig. Edrychai mor falch. Pan ddaeth y canlyniadau ychydig wythnosau'n ddiweddarach, fe ges i fraw wrth ddarganfod bod y babi yn dioddef o glefyd Duchenne. Dyma'r tro cyntaf i hyn ddigwydd i mi. Es yn ôl gyda'r ymwelydd iechyd. Roedden ni'n teimlo'n ofnadwy. Gwelwodd Ella a Rob wrth glywed y newyddion. Eglurodd yr ymwelydd iechyd bod y clefyd yn effeithio ar fechgyn bach yn unig ac yn amlygu ei hun pan fydden nhw tua dwy oed ac y byddai ei gyhyrau'n gwanhau'n raddol. Cododd Ella a mynd at y babi, a dweud, "Dych chi'n gwybod, ro'n i'n meddwl nad oedd e'n cicio'i goesau mor gryf â Sophie pan oedd hi'n fabi. Ydych chi'n credu bod yr arwyddion yno nawr?" Dyna pryd sylweddolais i bod y prawf hwn yn golygu rhywbeth. Mae'n gallu newid bywydau pobl. Teimlais ein bod wedi cipio babandod y bachgen bach hwn. Pan gyrhaeddwn ni'r car, eisteddais ac wylo.

### Ystyried yr arferion

*Ydych chi'n credu bod y fydwraig wedi sicrhau caniatâd gwybodus ar gyfer y weithdrefn hon?*

## Datganiad Safonol Craidd 6: Yr Ymarferydd cymwys

### Parth: Datblygiad personol a phroffesiynol

#### Canfod terfynau ein harbenigedd ein hunain ym maes geneteg

- yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'n rôl broffesiynol wrth gyfeirio pobl at y gwasanaethau geneteg, darparu'r gwasanaethau a'r ôl ofal.

#### Awgrym o'r canlyniadau dysgu

- A. A chithau newydd gymhwyso ym maes iechyd, cydnabod rhychwant yr arfer a therfynau eich gallu ym maes geneteg.
- B. Cydnabod rôl gwasanaethau geneteg arbenigol wrth ddarparu gofal priodol i gleifion/cleientiaid.

#### Awgrym o ddangosyddion yr arferion

1. Yn dangos gofal a phryder priodol dros pob claf/client drwy gydol y broses, darparu gwasanaethau geneteg ac ôl ofal.
2. Yn dangos ymwybyddiaeth o derfynau ein harfer broffesiynol ni ein hunain ym maes geneteg.
3. Dynodi arferion effeithiol pobl broffesiynol maes iechyd sy'n fwy profiadol mewn geneteg.
4. Ymgynghori â'r bobl broffesiynol briodol os oes angen gofal arbenigol.
5. Dangos ymwybyddiaeth o derfynau pobl eraill sy'n darparu gwasanaethau geneteg.
6. Yn cydweithio gyda phobl ym maes iechyd a gofal cymdeithasol (statudol ac anstatudol).

### Senario: Gwerthfawrogi cyfyngiadau'r wybodaeth

Roedd Sarah newydd gymhwyso ac yn gweithio ar ward llawfeddygol cyffredinol. Daeth Julie, chwaer Melanie, un o'i chleifion ati. Roedd Melanie yn 34 oed ac yn cael codi'i bron. Dywedodd Julie wrth Sarah ei bod hi'n ystyried cael llawfeddygaeth blastig i godi'i bronnau am ei bod yn pryderu y byddai hithau'n cael cancr y fron - dywedodd bod hi a'i chwaer wedi tueddu i gael yr un mathau o salwch pan oedden nhw'n blant ac wrth gwrs maen nhw'n debyg o ran eu pryd a'u gwedd. Roedd Julie wedi dod o hyd i lawfeddyg ar y rhynggrwyd yn barod i wneud y gwaith. Roedd y nyrs staff yn ymwybodol y gellir etifeddu cancr y fron ac felly, gallai Julie fod ar risg. Fodd bynnag, teimlai Sarah fod Julie yn cymryd cam drastig iawn heb yn gyntaf gael mwy o wybodaeth annibynnol efallai. Perswadiodd Julie i fynd i siarad â'i meddyg teulu a gofyn am gael ei chyfeirio i gael cyngor geneteg cyn wneud dim byd pellach. Ymhen amser, derbyniodd y nyrs staff lythyr oddi wrth Julie yn diolch iddi am fod y gwasanaeth geneteg wedi gallu ei hargyhoeddi mai nam etifeddol yn y genyn BRCA1 oedd achos cancr ei chwaer ond roedd prawf wedi dangos nad oedd Julie yn cludo'r un nam yn y genyn. Roedd gweithred y nyrs wedi atal Julie rhag cael llawdriniaeth ddiangen.

## Datganiad Safonol Craidd 7: Yr ymarferydd cymwys

### Parth: Arferion Proffesiynol a Moesegol

#### Sicrhau a throsglwyddo gwybodaeth gredadwy, cyfredol am geneteg ar gyfer ni ein hunain, cleientiaid a chydweithwyr

- gan ddefnyddio technolegau gwybodaeth yn effeithiol i wneud hyn.

Awgrym o'r canlyniadau dysgu	Awgrym o ddangosyddion yr arferion
<p>A. Yn cydnabod y pwysigrwydd o ddiweddarau'r wybodaeth geneteg yn rheolaidd a'r manteision i ni, i'r cleientiaid ac i gydweithwyr sy'n deillio o hynny.</p> <p>B. Yn gwerthfawrogi cyfyngiadau'r wybodaeth hygredded y wybodaeth a pha mor ddibynadwy ydy hi.</p> <p>C. Yn gwerthuso'r wybodaeth o wahanol ffynonellau.</p>	<ol style="list-style-type: none"><li>Yn dangos gwybodaeth heb gael gweld adnoddau geneteg rhanbarthol/lleol.</li><li>Wrthi'n cyfeirio at dystiolaeth ymchwil i geneteg wrth ofalu am gleientiaid/cleifion.</li><li>Yn mabwysiadu amrediad o sgiliau rhyngbersonol wrth gyfathrebu â chleientiaid a chydweithwyr am faterion geneteg.</li><li>Yn gweithredu i gwrdd ag unrhyw ddiffyg mewn gwybodaeth a sgiliau a allai effeithio ar ein gallu i ddarparu gofal yn ein maes arferion ni ein hunain.</li></ol>

10

### Senario

Synnais weld Jason yn dod i gasglu ei hanner brawd, Tony o'r ganolfan ddydd. Mae gan Tony anawsterau dysgu a gall ei ymddygiad darfu ar eraill a bod yn anghymdeithasol - y llynedd rhoddodd ganolfan y gymuned ar dân. Ei fam, nid Jason fydd yn casglu Tony fel arfer, ond roedd e'n awyddus i siarad â'r nyrs yn y ganolfan. Gofynnodd i mi a allai gael y prawf am Fragile X achos ei fod yn poeni am ei ddyfodol. Dywedodd wrtho i nad oedd e am gael plentyn yn debyg i'w frawd. Newydd ddechrau oeddwn i yn y ganolfan ddydd ac nid oeddwn yn gwybod holl hanes meddygol Tony. Ond wrth gwrs, roeddwn yn ymwybodol petai ganddo Fragile X y byddai 50% o siawns y byddai wedi etifeddu'r trawsblygiad. Eisteddais a gwrando ar ofidiau Jason a dod i bryderu mwy a mwy am ei resymau dros gael y prawf. Dywedodd wrtho i bod ei dad a'i lysfam yn ei gyhuddo o "fod yn gwmws fel ei frawd" ac roedd e am eu profi'n anghywir. Dywedodd, "Dwi'n gwybod mod i'n dwp fel Tony ond dwi ddim yn ddrwg". Dywedais wrth Jason y byddai rhaid i mi checio nodiadau Tony a gofynnais iddo fy ffonio i nôl. Dwedais y gallen ni gysylltu â'r gwasanaeth geneteg pe bai rhaid a bydden nhw'n gallu helpu. Pan ddarllenais i'r nodiadau gwelais eu bod, flynyddoedd yn ôl, wedi ystyried Fragile X ynghyd â phosibiliadau eraill, ac roedd y profion yn glir. Ni chanfuwyd diagnosis pendant ond amlygwyd y sefyllfa gymdeithasol anodd ac nad oedd amgylchedd y cartref yn helpu problemau ymddygiad Tony. Sylweddolais wedyn, nad y gwasanaeth geneteg oedd ei angen i leddfu pryderon Jason ond yn sicr bod 'na problemau sy'n effeithio ar ei hunan-barch. Efallai y ca'i sgwrs yn hytrach, gyda'r gweithiwr cymdeithasol.

### Ystyried yr arferion

Mae'r senario hwn yn tanlinellu'r angen i ystyried mai rhan yn unig o 'daith' y cleient yw geneteg. *Petai'r nyrs wedi darganfod bod nodiadau Tony yn cadarnhau bod ganddo Fragile X (yn ogystal â'r materion cymdeithasol) a ddylai hi wedyn fod wedi cyfeirio Jason i gael cwnsela geneteg?*

# GWEITHREDU'R CYMHWYSEDD

## Enghreifftiau ar gyfer yr ymarferydd profiadol

Mae'r lefel hon yn disgrifio'r nyrs neu'r unigolyn cofrestredig a fu'n gweithio mewn maes cyffredinol neu arbenigol am fwy na dwy flynedd ers cynhwyso (e.e uwch nyrs staff neu fydwraig staff), neu ymwelydd iechyd cofrestredig. Ar y lefel hon, gall y person proffesiynol fireinio a gwerthuso'r dystiolaeth yn ôl ei b/phrofiad. D.S. Mae testun sydd mewn llythrennau italig yn dynodi canlyniadau newydd neu ddiwygiedig o'u cymharu â'r rhai ar gyfer yr ymarferydd cymwys.

## Parth: Arferion Proffesiynol a Moesegol

### Datganiad Safonol Craidd 3 - Cefnogi hawl pob cleient i gael llais yn y penderfyniadau a wneir a'r gweithredu gwirfoddol

- yn seiliedig ar yr ymwybyddiaeth bod y wybodaeth am eneteg pobl wedi ei gamddefnyddio yn y gorffennol a
- deall pa mor bwysig yw hi i ddarparu addysg geneteg a chynghor teg, cywir heb orfodaeth na ragfarn personol,
- sylweddoli y gall gwerthoedd a chredoau personol ddylanwadu ar y gofal a'r cymorth a ddarperir ar gyfer cleientiaid yn ystod y broses o benderfynu.

### Awgrym o'r canlyniadau dysgu

- Dadansoddi* goblygiadau cymdeithasol a seicolegol yr hawl i dderbyn gwasanaethau a gwybodaeth geneteg.
- Gwerthuso* sut gallai gwerthoedd a chredoau personol ar faterion cymdeithasol, diwylliannol crefyddol ac ethnig ddylanwadu ar ofal cleientiaid.
- Dadansoddi* sut gall ymwybyddiaeth o gam-drin gwybodaeth geneteg yn y gorffennol a darpar camdriniaeth fod yn sail i egwyddor y dull di-gyfarwyddo o gwnsela geneteg.

### Awgrym o ddangosyddion yr arferion

1. *Asesu* anghenion y cleient, dangos tegwch a sensitifrwydd wrth gydystyried y sail rhesymegol dros geisio cynghor arbenigwyr geneteg neu cael eu cyfeirio atyn nhw.
2. *Gwerthuso* sefyllfaoedd lle gallai ein credoau a'n gwerthoedd ni ein hunain ddylanwadu ar y gofal a roddir i gleientiaid.
3. *Gwerthuso* sefyllfaoedd lle mae credoau a/neu werthoedd y cleient ei hun yn dylanwadu ar ddewisiadau geneteg.
4. *Cymhwyso* sgiliau cyfathrebu i alluogi'r cleient fynegi ei ddymuniadau/ dymuniadau ei hun neu weithredu mewn dull arbennig.
5. Peidio byth â barnu.
6. *Cefnogi dull di-gyfarwyddo fel bo'n briodol wrth ddarparu addysg iechyd sy'n cynnwys gwybodaeth am eneteg.*
7. *Cefnogi hawl pob cleient i gael llais yn y penderfyniadau a wneir a'r gweithredu gwirfoddol*
8. *Cefnogi hawliau arbennig y rhai nad ydyn nhw'n medru rhoi caniatâd gwybodus i weld a defnyddio gwybodaeth geneteg.*

## Senario

Yn aml, pan dwi'n galw yn y ty mae Amy sy'n ddeg oed yno a dwi'n amau bod ei mam yn ei chadw o'r ysgol i warchod ei brawd bach, Ben a gafodd ei eni ddwy flynedd yn ôl gyda Down syndrome. Mae e'n llond llaw ac mae'r fam yn ei chael hi'n anodd ymdopi. Ond dipyn o gyfrifoldeb i Amy fach ei ysgwyddo. Heddiw, roedd hi adref yn dioddef o ddolur gwddf. Wrth i mi fynd gofynnodd Amy'n betrus, "Os ca' i fabis pan fyddai hyn, fyddan nhw fel Ben?"

## Ystyried yr arfer

How would you deal with Amy's question? What would you need to know to inform your response?

## Engbreiffitiau ar gyfer yr ymarferydd profiadol

### Domain: Care delivery

#### Datganiad Safonol Craidd 4

**Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o rôl ffactorau geneteg ac eraill wrth gynnal iechyd ac wrth amlygu, addasu ac atal afiechydon i danlinellu arferion effeithiol.**

Awgrym o'r canlyniadau dysgu	Awgrym o ddangosyddion yr arferion
<p>A. <i>Yn trafod rôl ffactorau geneteg mewn cynnal iechyd a rhwystro afiechyd</i></p> <p>B. <i>Yn trafod amrediad dulliau geneteg o drin ac atal afiechyd.</i></p> <p>C. <i>Yn trafod rôl ffactorau geneteg mewn amlygiad o afiechyd, gan ddefnyddio enghreifftiau o'r cyflyrau etifeddol mwyaf cyffredin a welir yn ein maes neu ein practis ni ein hunain.</i></p> <p>D. <i>Dadansoddi sut y gallai'r rhyngweithiad rhwng ffactorau geneteg, a ffactorau eraill ar wahanol gyfnodau mewn bywyd, ddylanwadu ar amlygiad clefydau.</i></p> <p>E. <i>Cymhwyso cysyniadau sylfaenol risg i egluro'r gwahaniaeth rhwng tueddiad genetig ac amlygiad clinigol o'r clefyd.</i></p>	<p>1. Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i ganfod gwybodaeth a allai fod yn arwyddocaol yn hanes y teulu.</p> <p>2. <i>Yn cynnwys gwybodaeth am hanes wrth ddarparu cyngor addysg iechyd.</i></p>

12

### Senario

Newydd gofrestru gyda'r practis oedd Judith Mills ac yn mynychu'r Clinig Clefyd Siwgr. Cyn symud i'r ardal, roedd prawf gwaed wedi dangos bod lefel y siwgr yn ei gwaed yn uchel ar adegau pan na fyddai wedi bod yn bwyta. Dywedodd wrth nyrs y practis bod ei doctor wedi dweud mai ffurf wan ar glefyd siwgr oedd arni sef 'math 2' ac nad oedd dim i'w boeni yn ei gylch dim ond iddi fwyta'n iach ac iddo gadw llygad arni o dro i dro. Fodd bynnag, roedd ei thad, oedd hefyd yn dioddef o glefyd siwgr, wedi bod yn wael ei iechyd ers nifer o flynyddoedd ac ar insiwlun erbyn hyn. Roedd Judith angen sicrwydd na fyddai hithau'n yn dilyn ei thad a hefyd a fyddai unrhyw blentyn iddi yn dioddef o'r un cyflwr.

Roedd nyrs y practis newydd fod ar gwrs ar glefyd siwgr a geneteg ac yn gwybod bod llawer o is-fathau o glefyd siwgr math 2 y gellid eu trosglwyddo o un genhedlaeth i'r nesaf. Roedd hi'n bosibl bod Judith yn dioddef o MODY (Clefyd Siwgr Aeddfed yr Ifanc). Cofiodd y gallai'r math mwyaf cyffredin o hwn waethygu wrth i'r claf fynd yn hyn ac, yn achos rhai cleifion, gorfod symud o dabledi i insiwlun. Roedd is-fath arall yn un gwan ond angen ei fonitro'n ofalus am gymhlethdodau yn ystod cyfnod o feichiogrwydd. Roedd hi'n bosibl nad y clefyd siwgr oedd yn effeithio ar gyflwr gwael iechyd tad Judith ond bod cyflwr oedd unwaith yn wan wedi gwaethygu. Gwrandawodd y nyrs yn ofalus ar bryderon Judith a chytuno y byddai o fudd iddi gael mwy o wybodaeth ac efallai ymchwiliad pellach. Dywedodd wrth Judith y byddai'n cysylltu â nyrs gyswllt MODY a threfnu i Judith fynd i'w gweld hi.

### Ystyried yr arferion

*I ba raddau roedd nyrs y practis yn gweithredu o fewn Côt Ymarfer Proffesiynol?*

## Enghreifftiau ar gyfer yr ymarferydd profiadol

### Parth: Arferion Proffesiynol a Moesegol

#### Datganiad Safonol Craidd 5

#### Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r defnydd o wybodaeth a phroffion geneteg a'r cyfyngiadau

- yn cynnwys y materion ethnig, cyfreithiol a chymdeithasol ynghlwm â phroffion a chofnodi gwybodaeth geneteg a'r
- canlyniadau corfforol a/neu seicogymdeithasol posibl i unigolion, aelodau teuluoedd ac i gymunedau.

Awgrym o'r canlyniadau dysgu	Awgrym o ddangosyddion yr arferion
<p>A. <i>Dadansoddi</i> manteision, risgiau a chyfyngiadau posibl profion geneteg a'r hawl i gael gwybodaeth geneteg, <i>gan gynnwys gwybodaeth post mortem</i>.</p> <p>B. <i>Gwerthuso</i> sensitifrwydd gwybodaeth geneteg yn enwedig y materion moesol, cyfreithiol a chymdeithasol cysylltiedig.</p> <p>C. <i>Gwerthuso</i> effaith posibl gwybodaeth eneteg ar unigolion, aelodau'r teulu a chymunedau.</p> <p>D. <i>Trafod sut gall diwylliant ethnig effeithio ar yr hawl i gael gwybodaeth geneteg</i>.</p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Yn sicrhau preifatrwydd wrth drafod gwybodaeth eneteg.</li> <li>2. Cynnal ac <i>amddiffyn</i> cyfrinachedd wrth gofnodi gwybodaeth eneteg.</li> <li>3. Yn arddangos sensitifrwydd i effaith posibl gwybodaeth eneteg ar yr unigolyn ac aelodau eraill o'r teulu, <i>gan ofalu peidio achosi gofid diangen na chodi eu gobeithion yn ormodol</i>.</li> <li>4. Ymateb yn briodol i ymholiadau am bryderon geneteg.</li> <li>5. <i>Hwyluso cadw samplau geneteg pobl yn foesegol, gan gynnwys samplau gan gleifion sy'n marw neu sy' wedi marw o gyflwr etifeddol</i>.</li> </ol>

13

### Parth: Arferion Proffesiynol a Moesegol

#### Datganiad Safonol Craidd 7

#### Sicrhau a throsglwyddo gwybodaeth gredadwy, gyfredol am eneteg ar gyfer ein hunain, cleientiaid a chydweithwyr

- gan ddefnyddio technolegau effeithiol i wneud hynny

Awgrym o'r canlyniadau dysgu	Awgrym o ddangosyddion yr arferion
<p>A. <i>Yn cydnabod</i> y pwysigrwydd o ddiweddarau'r wybodaeth geneteg yn rheolaidd a'r manteision i ni, i'r cleientiaid ac i gydweithwyr sy'n deillio o hynny.</p> <p>B. <i>Yn gwerthuso</i> cyfyngiadau'r wybodaeth, hygredd y wybodaeth a pha mor ddibynadwy ydy hi.</p> <p>C. <i>Yn ceisio</i> a gwerthuso'r wybodaeth o wahanol ffynonellau.</p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. <i>Addysgu eraill</i> am yr hawl i gael gweld adnoddau geneteg lleol/rhanbarthol.</li> <li>2. Wrthi'n cyfeirio at dystiolaeth ymchwil i geneteg wrth ofalu am gleientiaid/cleifion <i>ac yn cyfathrebu hyn i eraill</i>.</li> <li>3. <i>Yn cymhwyso</i> amrediad o sgiliau rhyngpersonol <i>priodol</i> wrth gyfathrebu â cleientiaid a chydweithwyr am faterion geneteg.</li> <li>4. Yn gweithredu i gwrdd ag unrhyw ddiffyg mewn gwybodaeth a sgiliau (<i>ein hunain a chydweithwyr</i>) a allai effeithio ar ein gallu i ddarparu gofal yn ein maes arferion ni ein hunain.</li> <li>5. <i>Yn hwyluso trafodaeth ar faterion geneteg</i>.</li> </ol>

## Senario: Cyfathrebu o fewn fframwaith moesegol

Fel prif weinydd nyrsio yn gweithio mewn Uned Derbyniad Brys adran iechyd meddwl, yn fynych dw i'n gweld teuluoedd â chlefyd Huntington ac yn aml iawn, mae rhai o'r materion yn peri loes i mi. Mae'n glefyd blin iawn ac mor anodd i berthnasau sy'n dod i ymweld â'r claf. Mae rhaid bod y bobl sydd ar risg uchel o gael y clefyd yn rhagweld eu tynged ac wrth gwrs, gall y bobl sydd wedi eu profi'n negyddol deimlo'n euog eu bod nhw'n glir o'r clefyd.

Roedd John wedi dod i weld ei dad, Terry. Mae Terry yn ei 50au cynnar ac yn dioddef o Huntington ers canol ei 40au. Dim ond 14 oed oedd John pan ddechreuodd ei dad amlygu'r symptomau - sefyllfa anodd iawn i fachgen yn ei ardegau ddelio ag e. Datblygodd Terry baranoia yn sydyn a daeth i mewn i'r uned wythnos yn ôl.

Ar ôl gweld ei dad, daeth John ata i a gofyn am sgwrs; roedd yn amlwg wedi cynhyrfu'n lân. Dywedodd ei fod wedi bod yn meddwl am gael prawf rhagfynegi a gan ei fod yn awyddus i briodi Sophie, ei gariad, ac am wybod am y risg i unrhyw blentyn o'u heiddo. Dywedodd John wrtha i sut roedd yn teimlo wrth weld cyflwr presennol ei dad. Roedd am gael gwybod a oeddwn wedi gweld llawer o bobl yn dioddef o glefyd Huntington. Soniais wrtho am y problemau mwyaf cyffredin y mae pobl yn eu profi - ceisiais fod yn onest a phan ddaeth hi'n amser iddo adael roedd yn ymddangos yn dawelach ei feddwl.

Ddau ddiwrnod yn ddiweddarach, daeth i'm gweld eto. Roedd am i mi gadw'r sgwrs yn gyfrinachol. Eglurais wrtho bod ffiniau i gyfrinachedd a phetai materion yn codi a oedd yn fy nhyb i, tu hwnt i'm rôl broffesiynol, byddai rhaid i mi ofyn am help mwy arbenigol ond y byddwn yn trafod hyn gyda fe cyn gwneud dim. Dyna beth dwi'n ei ddweud bob amser yn y sefyllfaoedd hyn. Dwi'n credu iddo glywed hyn ond dwi ddim yn si\_r a oedd e wedi deall popeth. Dywedodd John ei fod yn mynd i gael y prawf. Roedd yn ei chael hi'n anodd iawn ymdopi gyda'r newid yng nghyflwr ei dad ac roedd wedi gwneud cynlluniau. Os oedd y prawf yn gadarnhaol byddai'n difa'i hun. Roedd yn amlwg wedi ystyried hyn yn ofalus. Doedd hyn ddim yn syndod i mi ond roeddwn yn poeni a oeddwn wedi rhoi gormod o wybodaeth iddo ychydig o ddyddiau ynghynt.

## Beth ddylai ddigwydd nesaf?

Ar ôl trafod gyda John a chytuno, trefnodd y prif weinydd nyrsio staff iddo fynd i weld seicolegydd clinigol.

## Ystyried yr arferion

Wrth 'osod testun' y sgwrs' mae'n bwysig gosod ffiniau ar gyfer y rhyngweithio a chydabod bod y sgwrs yn gyfrinachol ond efallai byddai rhaid torri'r cyfrinachedd mewn rhai amgylchiadau.

*A ddylai'r prif weinydd nyrsio fod wedi bod yn fwy cysurllon wrth egluro baich y cyflwr hwn?*

# GWEITHREDU'R CYMHWYSEDD

## Enghraifft i ymarferydd uwch ei safon

Mae'r lefel hon yn cynrychioli'r nyrs, bydwaig, ymwelydd iechyd cofrestredig, profiadol sydd wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol ar ôl cymhwyso ac sy'n gweithredu rôl lle mae rhaid iddyn nhw farnu a gwneud penderfyniadau uwch eu lefel, e.e. prif weinydd ward neu nyrs glinigol arbenigol. Ar y lefel hon gall y person proffesiynol ym maes iechyd gyfrannu at ddiffinio hyfedredd yn ei maes/ei faes ymarfer. Mae'r dangosyddion canlyniad isod ar gyfer uwch nyrs sy'n gweithio'n gyfangwbl ym maes oncoleg.

### Parth: Cyflenwi gofal

#### Datganiad Safonol Craidd 4

**Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o rôl ffactorau geneteg ac eraill wrth gynnal iechyd ac wrth amlygu, addasu ac atal afiechydon i danlinellu arferion effeithiol.**

#### Awgrym o'r canlyniadau dysgu

- A. Trafod rôl ffactorau geneteg mewn cynnal iechyd ac atal clefydau yn arbennig cancrâu etifeddol.
- B. Trafod lle cyfredol a darpar le pharmacogenetics a therapi genynnau ym maes atal a rheoli cancr.
- C. Trafod rôl ffactorau geneteg mewn amlygiad cancr gan ddefnyddio enghreifftiau o'r cancrâu arbennig mwyaf cyffredin a welir yn ein practis ni ein hunain (e.e colorectal, y fron).
- D. Dadansoddi sut gall rhyngweithiad rhwng ffactorau geneteg ac eraill effeithio ar amlygiad cancr ar wahanol gyfnodau bywyd.
- E. Cynhwysu gwahanol gysyniadau risg i egluro'r gwahaniaeth rhwng tueddiad geneteg ac amlygiad clinigol o glefyd.

#### Awgrym o ddangosyddion yr arferion

- 1. Cynhwysu gwybodaeth a dealltwriaeth i ddynodi gwybodaeth a allai fod yn arwyddocaol am yr hanes teuluol gan fod yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng cancrâu etifeddol a chancrau genetegol.
- 2. Yn cynnwys gwybodaeth am hanes teulu wrth ddarparu cyngor addysg iechyd.
- 3. Yn hwyluso a chefnogi unigolion i gael yr hawl i gael eu sgrinio ac i fentrau hyrwyddo iechyd, gan gyflwyno barn gytbwys ar fanteision ac anfanteision y rhain.
- 4. Arddangos ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyflyrau cancr sy'n annhebygol o fod wedi eu hetifeddu ac o'r cancrâu prinnach sydd wedi eu hetifeddu a'r materion hyrwyddo iechyd yn sgil hyn.



".... Wn i ddim am yr un Jean Probe ar gyfer clwy'r prostad, Mr Jones, fydd raid i chi dynnu'ch trowser fel pawb arall!"

## Senario: Nyrs glinigol arbenigol mewn cancr colorectal

Mae dwy ran i fy swydd i. Dwi'n gweithio fel nyrs ymchwil yn ogystal â bod yn nyrs glinigol arbenigol mewn cancr colorectal ac weithiau mae'r rôl ddeuol hon yn gallu achosi problemau o ran diweddarau fy ngwybodaeth. Mae Alex yn un o chwe brawd a chwaer. Ymfudodd dau o'i frodyr i Ganada 30 mlynedd ond yn anffodus dros y blynyddoedd maen nhw wedi colli cysylltiad â'i gilydd. Mae dwy chwaer (Pauline, 55, a Beverley, 63) yn byw yn yr Alban ond mae Alex wedi colli cysylltiad â nhw ers blynyddoedd. Roedd yn syndod iddo pan ffoniodd g\_r Pauline ei bod yn yr ysbyty yn gwella wedi cael tynnu llawer o'i cholyddion ar ôl deall bod hi'n dioddef o gancr y colyddion. Aeth Alex i ymweld â hi a dwedodd wrtho bod un o'u nithoedd wedi dweud bod Beverley hefyd wedi cael cancr y colyddion ddwy flynedd yn ôl. Mae'n debyg bod un o'u brodyr yntau wedi marw o gancr y colyddion yn 68 oed. Hyd y gwyddon nhw, doedd neb arall yn y teulu wedi cael cancr. Trwy gyd-ddigwyddiad, roedd Alex newydd gael prawf sigmoidoscopy fel rhan o raglen sgrinio'r colyddion - dyna lle cwrddais ag Alex. Yn dilyn hyn, rhoddon ni'r canlyniadau iddo fe yn dangos bod ganddo nifer o bolyps ar y colyddion ond dim byd i boeni amdano. Fel rhan o'r astudiaeth, gofynnwyd iddo gwblhau holiadur am diet, ffordd o fyw, hanes meddygol y teulu. Er gwaethaf hanes meddygol ei deulu doeddwn i ddim yn pryderu gan nad oedd yn cyflawni meini prawf risg (tri pherthynas gradd gyntaf gyda chancr colorectal neu gancr cysylltiedig, un o dan 40 oed).

Yn dilyn ei ymweliad â Pauline, cysylltodd â fi eto, yn amlwg wedi cynhyrfu ar gyflwr Pauline ac yn poeni am y risg iddo'i hun. Roedd ganddo ragor o hanes y teulu. Roedd ei frawd hefyd wedi cael polyps ar y colyddion. Ceisiais dawelu ei feddwl ond roedd rhywbeth yn dweud wrtha i y gallai hyn fod yn bwysig. Cytunais i geisio gael mwy o wybodaeth a'i alw nôl ond dwi'n cofio bod ychydig yn ddi-feind o'i bryderon. Penderfynais gael cyngor arbenigol felly, cysylltais ag un o'm cydweithwyr yn gweithio gyda Thîm Geneteg Cancr. Cofiodd yntau bod cyflwr cymharol newydd MYH (Recessive Colorectal cancer) wedi ei ganfod lle mae cancr y colyddion yn digwydd pan fo pobl yn hynach. Mae cysylltiad rhyngddo â polyps ar y colyddion ond nid yw'n effeithio ar y rhieni. Mae hyn yn wahanol i FAP neu HNPCC, cyflyrau etifeddol sy'n achosi cancr colorectal lle effeithir ar un rhiant (etifeddeg dominyddol). Meddyliais am Alex yn syth.

Gan deimlo'n euog iawn am fy niffyg gwybodaeth, fe alwais Alex yn ôl ac egluro'r hyn roeddwn wedi ei ganfod a chynnig ei anfon at fy nghydweithiwr mewn Geneteg. Roedd y gair Geneteg yn peri syndod iddo a dwedodd nad oedd eisiau bod yn destun profion. Ceisiais dawelu ei feddwl drwy esbonio mai ceisio penderfynu a oedd hanes ei deulu'n broblem ai peidio oedden ni a chynnig cymorth a gofal iddo. Fe drefnwyd hyn ac, erbyn hyn rydw i'n fwy ymwybodol o bwysigrwydd diweddarau fy ngwybodaeth ac i osgoi codi gobeithion yn ormodol.

## Cyfeiriadau ac Adnoddau

### Dogfennau polisi a phapurau academaidd perthnasol

- Association of Genetics Nurses and Counsellors Education Working Group (2002) *Reports for the Genetics Policy Unit, Department of Health*. (Convenor H Skirton)
- Burton H (2003) *Addressing Genetics Delivering Health. A strategy for advancing the dissemination and application of genetics knowledge throughout our health professions*. Cambridge: Public Health Genetics Unit.
- Department of Health (1999) *Agenda for Change. Modernising the NHS pay system*. London: Department of Health.
- Department of Health (2003) *The NHS Knowledge and Skills Framework and related development review*. London: The Stationery Office.
- Department of Health (2003) *Our Inheritance, Our Future. Realising the potential of genetics in the NHS*. London: The Stationery Office.
- Kirk M (1999a) Preparing for the future: the status of genetics education in diploma-level training courses for nurses in the United Kingdom. *Nurse Education Today* 19(2): 107-115.
- Kirk M (1999b) *Nurse education and the new genetics: Preparing the practitioners of the future. A report of an Expert Advisory Panel*. Pontypridd: University of Glamorgan.
- Kirk M (2000) Genetics, ethics and education: considering the issues for nurses and midwives. *Nursing Ethics* 7(3): 215-226.
- Kirk M, McDonald K, Longley M, Anstey S et al. (2003) *Fit for Practice in the Genetics Era: Defining what nurses, midwives and health visitors should know and be able to do in relation to genetics*. Pontypridd: University of Glamorgan.

### Gwefannau

1. *National Coalition for Health Professional Education in Genetics*  
<http://www.nchpeg.org>
2. *Essentially an on-line text book on genetics:*  
<http://www.usd.edu/med/som/genetics/curriculum/TableofContents.htm>
3. *Public Health Genetics Unit, Cambridge: a good all-round resource with a regular 'round up' of current papers and events*  
<http://www.medinfo.cam.ac.uk/phgu>
4. *An interactive web site with some useful teaching and learning resources*  
<http://gslc.genetics.utah.edu/>
5. *The Genetics Observatory website has short articles exploring genetics and ethics*  
<http://www.ircm.qc.ca/bioethique/obsgenetique/>
6. *The GeneTests website offers detailed information about particular conditions and tests with an illustrated glossary*  
<http://www.geneclinics.org>
7. *This Genetics Home Reference site provides clear information and a good glossary*  
<http://ghr.nlm.nih.gov/>

### Cyfeirlyfrau

- Abramsky L 2003 *Prenatal Diagnosis, the Human Side*. Nelson Thornes
- British Medical Association (1998) *Human Genetics: Choice and Responsibility*. Oxford University Press, Oxford.
- Harper PS (1998) *Practical Genetic Counselling*. 5th edition. Butterworth Heinemann, Oxford.
- Harper PS and Clarke A (1997) *Genetics, society and clinical practice*. Bios, Oxford.
- Lea DH, Jenkins JF, Francomano CA (1998) *Genetics in Clinical Practice. New directions for nursing and health care*. Jones and Bartlett, Massachusetts.
- Marteaux T. and Richards M. (1996) Eds. *The Troubled Helix: social and psychological implications of the new human genetics*. Cambridge University Press, Cambridge.
- Rose P and Lucassen A (1999) *Practical genetics for primary care*. Oxford University Press, Oxford.
- Skirton H and Patch C (2002) *Genetics for healthcare professionals*. Bios, Oxford.



## Canolfannau Geneteg Rhanbarthol

Mothercare Unit of Clinical Genetics &  
Fetal Medicine  
Institute of Child Health  
30 Guilford Street  
London WC1N 1EH  
Tel: 020 7242 9789

Kennedy Galton Centre for Clinical Genetics  
Level 8V  
Northwick Park Hospital  
Harrow HA1 3UJ  
Tel: 020 8869 2795

Regional Clinical Genetics Service  
Department of Paediatrics  
Moston Lodge  
Countess of Chester Hospital  
Chester CH2 1UL  
Tel: 01244 364754

Mersey & Cheshire Clinical Genetics Service  
Alder Hey Children's Hospital  
Eaton Road, West Derby  
Liverpool L12 2AP  
Tel: 0151 252 5238

Regional Genetics Service  
St Mary's Hospital  
Hathersage Road  
Manchester M13 0JH  
Tel: 0161 276 6264

Regional Department of Clinical Genetics  
Manchester Children's Hospital NHS Trust  
Pendlebury  
Manchester M27 4HA  
Tel: 0161 727 2335

Northern Genetics Service  
International Centre for Life  
Central Parkway  
Newcastle upon Tyne NE1 3BZ  
Tel: 0191 241 8600

Yorkshire Regional Genetics Service  
Ashley Wing  
St James's University Hospital  
Beckett Street  
Leeds LS9 7TF  
Tel: 0113 206 5143/5  
NI Regional Genetics Centre  
Clinical Genetics Service  
Belfast City Hospital Trust  
Lisburn Road  
Belfast BT9 7AB  
Tel: 028 9032 9241 ext 2323

East Anglian Medical Genetics Service  
Department of Medical Genetics  
Box 134, Addenbrooke's Hospital  
Hills Road  
Cambridge CB2 2QQ  
Tel: 01223 216446

Department of Clinical Genetics  
The Churchill  
John Radcliffe NHS Trust  
Old Road, Headington  
Oxford OX3 7LJ  
Tel: 01865 226026

N of Scotland Regional Genetics Service  
Department of Medical Genetics  
Medical School  
Foresterhill  
Aberdeen AB9 2ZD  
Tel: 01224 552120

Regional Genetics Services  
Human Genetics Laboratories  
Department of Pathology  
Ninewells Hospital and Medical School  
Dundee DD1 9SY  
Tel: 01382 632680

Regional Cytogenetics Services  
Southmead Hospital  
Bristol BS10 5NB  
Tel: 0117 959 5570

W of Scotland Regional Genetics Service  
Institute of Medical Genetics  
Yorkhill Academic Campus  
Glasgow G3 8SJ  
Tel: 0141 201 0365 /0361/0000

S Thames (East) Regional Genetics Centre  
8th Floor, Guy's Tower  
Guy's Hospital  
London SE1 9RT  
Tel: 020 7955 4648/9

South West Thames Genetics Service  
Department of Clinical Genetics  
St Georges Hospital Medical School  
Cranmer Terrace  
London SW17 0RE  
Tel: 020 8725 5304/5335

SE Scotland Clinical Genetics Service  
Department of Clinical Genetics  
Western General Hospital  
Crewe Road South  
Edinburgh EH4 2XU  
Tel: 0131 651 1012

Clinical Genetics Department  
Royal Hospital for Sick Children  
St Michaels Hill  
Bristol BS5 5BJ  
Tel: 0117 928 5652

Clinical Genetics Department  
Royal Devon & Exeter Hospital  
Barrack Road  
Exeter EX2 5DW  
Tel: 01392 403151

Wessex Clinical Genetics Service  
Level G  
Princess Anne Hospital  
Coxford Road  
Southampton SO16 5YA  
Tel: 023 8079 6166

Department of Clinical Genetics  
Leicester Royal Infirmary  
Leicester LE1 5WW  
Tel: 0116 258 5736

Department of Clinical Genetics  
City Hospital  
Hucknall Road  
Nottingham NG5 1PB  
Tel: 0115 962 7728

Department of Clinical Genetics  
Sheffield Children's Hospital  
Sheffield S10 2TH  
Tel: 0114 271 7025

Medical Genetics Service for Wales  
Institute of Medical Genetics  
University Hospital of Wales  
Heath Park  
Cardiff CF14 4XN  
Tel: 029 2074 4028

West Midlands Regional Clinical Genetics  
Service  
Clinical Genetics Unit  
Birmingham Women's Hospital  
Edgbaston, Birmingham B15 2TG  
Tel: 0121 627 2630



## Parciau Gwybodaeth am Enynnau

Cambridge Genetics Knowledge Park  
Public Health Genetics Unit  
Strangeways Research Laboratory  
Worts Causeway  
Cambridge CB1 8RN  
Tel: 01223 740200  
[www.cgkp.org.uk](http://www.cgkp.org.uk)

London IDEAS Genetics Knowledge Park  
First Floor, Institute of Child Health  
30 Guilford Street  
London WC1N 1EH  
Tel: 020 7905 2221  
[www.londonideas.org](http://www.londonideas.org)

Oxford Genetics Knowledge Park  
The Churchill  
John Radcliffe NHS Trust  
Old Road, Headington  
Oxford OX3 7LJ

20

Life Knowledge Park  
Institute of Human Genetics  
International Centre for Life  
Central Parkway  
Newcastle upon Tyne NE1 3BZ  
<http://www.centreforlife.co.uk/ngkp/index.php>

Nowgen - NW Genetics Knowledge Park  
7th Floor, St Mary's Hospital  
Hathersage Road  
Manchester M13 0JH  
Tel: 0161 276 6147  
[www.nowgen.org.uk](http://www.nowgen.org.uk)

Wales Gene Park  
The Medicentre, Heath Park  
Cardiff CF14 4UJ  
Tel: 029 2075 7744  
[www.walesgenepark.com](http://www.walesgenepark.com)



